# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 16 Ionawr 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 182(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd - Gohiriwyd tan 23 Ionawr

(0 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Pwysau'r gaeaf mewn gofal iechyd

(45 munud)

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ystadau Cymru

(30 munud)

## 6 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024

(5 munud)

**NDM8450** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Diwygio) (Cymru) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2023.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 7 Dadl: Ffyniant Bro

(60 munud)

**NDM8449** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) bod polisïau ffyniant bro Llywodraeth y DU yn golygu bod gan Gymru lai o lais dros arian, a hefyd yn tanseilio datganoli a'r Senedd hon;

b) bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi bod yn fethiant llwyr nad yw wedi llwyddo i gymryd lle cronfeydd yr UE yng Nghymru, gan adael diffyg o bron i £1.3 biliwn; ac

c) bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Cronfeydd Ffyniant Bro a'r Rhaglen Lluosi wedi'u llesteirio gan oedi a chamreoli gan Lywodraeth y DU, gan roi straen ar awdurdodau lleol ac arwain at gau rhaglenni pwysig.

2. Yn galw am ailgyflwyno cyllid buddsoddi rhanbarthol i Lywodraeth Cymru fel bod modd cyflawni yn unol â pholisïau datganoledig sy'n llwyr atebol i'r Senedd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi bod cyllid ffyniant bro Llywodraeth y DU yng Nghymru yn fwy na £2.5 biliwn, a'i fod yn cyflwno prosiectau i drawsnewid cymunedau, creu swyddi a thyfu'r economi.

2. Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Gyllid Datblygu Rhanbarthol ar ôl Gadael yr UE a'i argymhellion.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad ynghylch a ddylid darparu gwahanol elfennau o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar lefel leol, ranbarthol neu ledled Cymru.

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Gyllid Datblygu Rhanbarthol ar ôl Gadael yr UE

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegwu pwyntiau newydd ar ôl pwynt 1, ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn credu nad yw polisïau ffyniant bro Llywodraeth y DU yn ffafriol i degwch o fewn Cymru ac wedi arwain at loteri cod post o ran cymorth economaidd ledled Cymru, gan waethygu anghydraddoldebau rhanbarthol rhwng cymunedau yng Nghymru y mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi methu â mynd i'r afael â hwy.

Yn credu y dylai pob penderfyniad ynghylch sut y caiff arian ei wario yng Nghymru gael ei wneud yng Nghymru.

Yn gresynu at y ffaith i Gymru gael ei thanariannu'n hanesyddol o ganlyniad i Fformiwla Barnett sydd wedi dyddio, gan fod hyn yn gwaethygu effaith y diffyg mewn cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro.

**Gwelliant 3** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw am:

a) dychwelyd cyllid buddsoddi rhanbarthol i Lywodraeth Cymru i ddarparu yn unol â pholisïau datganoledig sy'n gwbl atebol i'r Senedd;

b) Bil Tegwch Economaidd (Cymru) – gwarantu cyllid teg yn seiliedig ar anghenion Cymru;

c) mynd i'r afael â'r annhegwch ar draws setliadau cyllido ac ariannol presennol Cymru, er enghraifft drwy ailddynodi HS2 a Northern Powerhouse Rail fel prosiectau ar gyfer Lloegr yn unig, gan roi cyllid canlyniadol i Gymru o ganlyniad i hynny.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 17 Ionawr 2024